Ofcom

# Bwletin Darlledu Ac Ar-Alw

23 Mai 2024



## Nodyn i Ddarlledwyr – Rhaglenni etholiadol yn yr Etholiad Cyffredinol a gynhelir ar 4 Gorffennaf 2024

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu:

1) pwyntiau allweddol i ddarlledwyr eu nodi am raglenni'r Etholiad Cyffredinol;
2) crynodeb o ofynion y Cod Darlledu ar gyfer rhaglenni etholiadol;
3) gofynion didueddrwydd dyladwy yn y cyfnod cyn-etholiadol;
4) crynodeb o'r gofynion sy'n ymwneud â gwleidyddion fel cyflwynwyr; a
5) dolenni at ddogfennau a gwybodaeth arall gan Ofcom i helpu darlledwyr i sicrhau bod eu rhaglenni etholiadol yn cydymffurfio.

### Prif bwyntiau

Ar ôl y cyhoeddiad ar 22 Mai 2024 am yr Etholiad Cyffredinol, rydym yn atgoffa darlledwyr heddiw o'u dyletswyddau i sicrhau bod eu cynnwys yn cydymffurfio â'r **rheolau didueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy ac etholiadau arbennig yn y Cod Darlledu.**

Mae'r rheolau hyn wedi'u cynllunio i ddiogelu uniondeb dadl ddemocrataidd, sy'n amlwg yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod etholiadol. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r cyfryngau darlledu yn ei chwarae o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar newyddion a materion cyfoes y gallant ymddiried ynddynt. Mae Ofcom bob amser yn ystyried yr hawl i ryddid mynegiant cynulleidfaoedd a darlledwyr.

Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn disgwyl i ddarlledwyr sicrhau, yn benodol:

- eu bod yn ystyried a yw gofynion didueddrwydd arbennig Adran Pump yn cael eu dilyn, yn enwedig cyn i'r 'cyfnod etholiadol' swyddogol ddechrau. Byddem yn disgwyl i sylw darlledwyr i'r etholiad gydymffurfio â'r safonau uchaf o ddidueddrwydd dyladwy;
- yn ystod y cyfnod etholiadol, ni fydd unrhyw ymgeisydd yn gyflwynydd mewn unrhyw fath o raglen a bydd yr holl reolau yn Adran Chwech y Cod yn cael eu dilyn; ac
- mewn cynnwys newyddion, bydd cywirdeb dyladwy yn cael ei gynnal, ac mewn cynnwys heb fod yn newyddion, ni fydd deunydd ffeithiol yn camarwain y gynulleidfa'n sylweddol.

Bydd Ofcom yn cyflymu'r broses o ystyried materion sy'n ymwneud â safonau golygyddol yn ystod y cyfnod etholiadol, fel y bo'n briodol.

**Rydym yn debygol o ystyried bod torri Adrannau Pump a Chwech mewn rhaglenni etholiadol yn fater difrifol. Mewn achosion o'r fath, mae gennym ystod eang o sancsiynau statudol ar gael o roi cosb ariannol, cyfarwyddo trwyddedai i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau Ofcom, hyd at ddiddymu trwydded yn yr achosion mwyaf difrifol.**

## Crynodeb o ofynion y Cod Darlledu ar gyfer rhaglenni etholiadol

Ar 4 Mawrth 2024 ac ar 24 Ebrill 2024 fe wnaethom gyhoeddi Nodiadau i Ddarlledwyr ar raglenni etholiadol, gan atgoffa pob darlledwr o'r gofynion uwch o ran didueddrwydd dyladwy sy'n berthnasol yn ystod cyfnodau etholiadol. O ystyried y cyhoeddiad ynghylch Etholiad Cyffredinol y DU sydd ar fin cael ei gynnal, rydym yn atgoffa darlledwyr eto o'r gofynion hyn.

Rhaid i bob darlledwr gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer rhaglenni sy'n ymwneud ag etholiadau – yn enwedig Adran Pump (Didueddrwydd Dyladwy)[1] ac Adran Chwech (Etholiadau a Refferenda)[2] y Cod, yn ogystal â'r gwaharddiad ar hysbysebu gwleidyddol sydd yn adran 321 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac sy'n cael ei adlewyrchu yn Adran 7 o God BCAP. Mae'r lefel uchaf o ddidueddrwydd dyladwy yn berthnasol yn ystod cyfnodau etholiadol ac rydym yn debygol o ystyried bod torri Adrannau Pump a Chwech mewn rhaglenni etholiadol yn ddifrifol. Mewn achosion o'r fath, mae gennym ystod eang o sancsiynau statudol ar gael o roi cosb ariannol, cyfarwyddo trwyddedai i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau Ofcom, hyd at ddiddymu trwydded yn yr achosion mwyaf difrifol.

Bydd y rheolau yn Adran Chwech y Cod yn berthnasol pan fydd Ofcom yn nodi bod y 'cyfnod(au) etholiadol' wedi dechrau. Cyn ac yn ystod y cyfnod etholiadol, bydd y rheolau yn Adran Pump ein Cod yn dal yn berthnasol. Bydd cyfnod etholiadol yr Etholiad Cyffredinol yn dechrau pan ddiddymir y Senedd ar 30 Mai 2024.

Cyfrifoldeb y darlledwr yw sicrhau bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal mewn rhaglenni. Mae'n fater golygyddol i'r darlledwr o ran sut mae'n dewis cynnal didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni, ac mae amrywiaeth o dechnegau golygyddol y gall eu defnyddio i wneud hyn, fel y nodir yn fanwl yn ein Cod, ein Canllawiau a'n penderfyniadau blaenorol.

Os bydd cwyn yn nodi mater sylweddol o ran didueddrwydd dyladwy ynghylch unrhyw raglenni sy'n ymwneud ag etholiadau (newyddion a heb fod yn newyddion) yn ystod cyfnod etholiadol y mae Ofcom yn credu y gallai fod angen gwneud iawn amdano cyn yr Etholiad Cyffredinol, bydd yn cael ei hystyried gan Bwyllgor Etholiadau Ofcom. Bydd Ofcom yn cyflymu'r gwaith o asesu ac ymchwilio i raglenni etholiadol rydym yn cael cwynion amdanyn nhw neu raglenni rydym yn sylwi arnyn nhw ein hunain. Yn yr achosion hyn, bydd angen i Ofcom weithredu'n gyflym i benderfynu ar y canlyniad mewn ffordd gymesur a thryloyw cyn yr Etholiad Cyffredinol, a dylai darlledwyr fod yn barod i gydweithio ag Ofcom ar amserlenni tynn.

Dylai pob darlledwr gyfeirio at ein nodyn dyddiedig 4 Mawrth 2024 a 24 Ebrill 2024 i'w atgoffa o ofynion llymach y Cod sy'n berthnasol i raglenni etholiadol. Mae'r nodiadau hynny hefyd yn cynnwys nodiadau atgoffa a chanllawiau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- y diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr ag "ymgeisydd" o dan y rheolau sy'n ymwneud ag etholiadau yn Adran Chwech y Cod;
- trin ymgeiswyr annibynnol o dan reolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda; a
- chynnwys synthetig (gan gynnwys ffugiadau dwfn) mewn rhaglenni sy'n cael eu darlledu.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi crynodeb o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol. Bydd y crynodeb hefyd yn nodi'r ffactorau byddwn yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am raglenni sy'n gysylltiedig ag etholiadau, gan

[1] Gweler hefyd y Canllawiau i Adran Pump a gyhoeddwyd gan Ofcom.

[2] Gweler hefyd y Canllawiau i Adran Chwech a gyhoeddwyd gan Ofcom.

gynnwys rhoi mwy o bwysau ar dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol na thystiolaeth o gefnogaeth bresennol (ee polau piniwn).

## Gofynion 'didueddrwydd dyladwy' yn y cyfnod cyn-etholiadol

Bydd y cyfnod etholiadol yn dechrau ar 30 Mai 2024, ac o'r dyddiad hwn bydd y Rheolau yn Adran Chwech yn berthnasol. Cyn y dyddiad hwn, mae'n debygol y bydd trafod yr Etholiad Cyffredinol sydd ar y gweill yn rhwym wrth y rheolau sy'n ymwneud â materion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol sydd yn Rheolau 5.11 a 5.12 y Cod. Mae'r rhain yn datgan:

> *"...rhaid i'r sawl sy'n darparu gwasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni sy'n amserol ac wedi'u cysylltu'n glir."*
>
> a
>
> *"Wrth ymdrin â materion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, rhaid cynnwys ystod briodol eang o safbwyntiau pwysig a rhoi pwys dyladwy iddynt ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni sy'n amserol ac wedi'u cysylltu'n glir. Rhaid peidio â chamliwio safbwyntiau a ffeithiau."*

Byddem yn disgwyl i'r safonau uchaf o ddidueddrwydd dyladwy fod yn berthnasol i'r sylw a roddir i'r etholiad yn ystod y cyfnod hwn a byddem yn debygol o roi ystyriaeth ddifrifol i unrhyw achos o dorri'r rheolau hyn.

## Gwleidyddion nad ydynt yn sefyll fel ymgeiswyr yn gweithredu fel cyflwynwyr yn ystod y cyfnod etholiadol

Rydym yn atgoffa darlledwyr o Reol 6.6 y Cod, sy'n datgan:

> *"Rhaid i ymgeiswyr yn etholiadau'r DU, a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU beidio â gweithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr neu gyflwynwyr o unrhyw fath o raglen yn ystod y cyfnod etholiadol".*

Mae hyn yn golygu na chaiff unrhyw ymgeisydd sydd wedi'i enwebu i sefyll ar ddechrau'r cyfnod etholiadol ymddangos fel cyflwynydd unrhyw fath o raglen, nid rhaglenni sy'n delio â materion etholiadol neu wleidyddol yn unig, tan ar ôl i'r bleidlais ddod i ben. Mae'r Cod yn diffinio "ymgeisydd" fel yr ystyr a roddir iddo yn adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd) ac mae'n golygu ymgeisydd sydd wedi'i enwebu i sefyll yn yr etholiad neu ei gynnwys mewn rhestr o ymgeiswyr a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag ef[3]. Mae'r rheol hon wedi'i chynllunio i atal materion etholiadol rhag cael eu hadrodd yn rhannol, ac i helpu i sicrhau uniondeb y broses ddemocrataidd, yn ogystal ag ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr uniondeb hwnnw, drwy atal unrhyw fantais etholiadol annheg rhag cael ei rhoi i ymgeisydd penodol drwy eu hymddangosiad ar

[3] I gael rhagor o wybodaeth am y diffiniad o beth yw "ymgeisydd" o dan y rheolau sy'n ymwneud ag etholiadau yn Adran Chwech y Cod, gweler ein Nodyn i Ddarlledwyr a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr 2021 a'n Nodyn i Ddarlledwyr a gyhoeddwyd ar 4 Mawrth 2024.

wasanaethau trwyddedig. Dylai darlledwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol os oes unrhyw gyflwynwyr rhaglenni yn sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau sy'n cael eu cynnal.

Yn ogystal â hyn, mae Rheol 5.3 yn datgan:

> *"Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd neu ohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa".*

Mae Adran Pump (didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy) y Cod a'r Canllawiau sy'n gysylltiedig â'r Cod yn egluro bod yr adran hon o'r Cod yn berthnasol i ddarlledu newyddion "ar ba bynnag ffurf" y mae'n ymddangos mewn gwasanaeth trwyddedig (gan adlewyrchu'r darpariaethau statudol yn y maes hwn). Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys bwletinau newyddion, fflachiadau newyddion a rhaglenni cylchgrawn newyddion dyddiol.

Fel y nodir uchod, mae ymgeiswyr mewn etholiadau yn cael eu hatal rhag bod yn gyflwynydd mewn unrhyw raglenni yn ystod y cyfnod etholiadol. Mae gwleidyddion nad ydynt yn sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiad hwn yn cael eu hatal rhag cyflwyno cynnwys newyddion (oni bai fod cyfiawnhad eithriadol dros wneud hynny) ond maent yn cael cyflwyno rhaglenni materion cyfoes fel rhaglenni lle mae'r gynulleidfa yn cael ffonio i mewn a rhaglenni trafod. Fodd bynnag, byddem o'r farn y dylai'r safonau uchaf un o ran didueddrwydd dyladwy fod yn berthnasol. Mae Canllawiau Ofcom ar Adran Pump Ofcom yn nodi pwy rydym yn ystyried sy'n 'wleidydd' at ddibenion y rheol hon.

Dylai darlledwyr nodi bod rhaglenni'n gallu cynnwys newyddion a materion cyfoes. Mae penderfynu ar fformat rhan benodol o raglen yn benderfyniad golygyddol i ddarlledwyr, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r Cod. Rydym yn mynd at bob achos ar sail y ffeithiau i benderfynu a yw'r cynnwys yn newyddion neu'n faterion cyfoes, ar sail y dystiolaeth.

Mae p'un a yw rhaglen yn cynnwys newyddion neu faterion cyfoes (neu'r ddau) ai peidio yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys ei chynnwys a'i fformat.

Gall ffactorau ychwanegol hefyd fod yn berthnasol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar gyfer bod yn newyddion. Gallai'r rhain gynnwys: darllenydd newyddion sy'n cyflwyno'n uniongyrchol i'r gynulleidfa; trefn neu restr i straeon, yn aml ar ffurf fer; defnyddio gohebwyr i gyflwyno pecynnau byw neu wedi'u recordio; a/neu gymysgedd o eitemau fideo ac adroddiadau gan ohebydd. Mae'r ffactorau a allai ein harwain i ddosbarthu cynnwys fel materion cyfoes yn cynnwys rhaglen ar ffurf hir; trafodaethau, dadansoddiadau neu gyfweliadau helaeth gyda gwesteion, yn aml yn fyw; ac adroddiadau fideo ar ffurf hir.

Rhaid i gynnwys newyddion a materion cyfoes gydymffurfio â'r holl reolau perthnasol eraill yn Adrannau Pump a Chwech y Cod sy'n berthnasol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu yn ystod y cyfnodau etholiadol. Mae hyn yn cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol o bwys a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol (Rheolau 5.11 a 5.12). Cyfrifoldeb y darlledwr yw sicrhau bod didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni o'r fath yn cael ei gynnal.

Mae'n fater golygyddol i'r darlledwr o ran sut mae'n cynnal didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni, ac mae amrywiaeth o dechnegau golygyddol y gall eu defnyddio i wneud hyn, fel: cynnwys pobl sy'n cael eu cyfweld sy'n gallu cynnig safbwyntiau gwahanol; cyflwynydd sy'n crynhoi safbwynt gwahanol; a/neu gyflwynydd sy'n herio safbwyntiau'r rhai sy'n cael eu cyfweld.

**Rydym yn disgwyl i ddarlledwyr sy'n defnyddio gwleidyddion fel cyflwynwyr i roi sylw penodol i'r ymchwil ar Agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno ar deledu a radio a gyhoeddwyd ar 24 Ebrill 2024, ein Canllawiau ar Adran Pump sydd wedi'u diweddaru, a'n Penderfyniadau diweddar ar wleidyddion sy'n gweithio fel cyflwynwyr. Dylai darlledwyr nodi, yng ngoleuni'r cyhoeddiadau hyn, ein bod yn debygol o ystyried bod torri'r rheolau didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni etholiadol a gyflwynir gan wleidyddion (nad ydynt yn sefyll) yn fater difrifol. Mewn achosion o'r fath, mae gennym ystod eang o sancsiynau statudol ar gael o roi cosb ariannol, cyfarwyddo trwyddedai i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau Ofcom, hyd at ddiddymu trwydded yn yr achosion mwyaf difrifol.**

## Dolenni allweddol a gwybodaeth arall

Edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o fanylion am ein rheolau ar wleidyddion sy'n ymddangos ar y teledu a'r radio a'n Canllawiau cyhoeddedig ar gyfer Adran Pump a'r Canllawiau ar gyfer Adran Chwech. Mae gwybodaeth ddefnyddiol arall ar gael yn:

- Nodiadau blaenorol Ofcom i ddarlledwyr ar faterion etholiadol, gan gynnwys y rheini a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2023, 4 Mawrth 2024 a 24 Ebrill 2024;
- Nodyn blaenorol Ofcom i ddarlledwyr ar 3 Ebrill 2023 ar Cyfryngau synthetig (gan gynnwys ffugiadau dwfn) mewn rhaglenni sy'n cael eu darlledu;
- ymchwil diweddar ar Agweddau cynulleidfaoedd at wleidyddion yn cyflwyno rhaglenni ar deledu a radio;
- rhagor o wybodaeth am Bwyllgor Etholiadau Ofcom a'i benderfyniadau blaenorol ar gwynion am ddidueddrwydd dyladwy ynghylch sylw i etholiadau;
- Crynodeb Etholiadol Ofcom a ddiweddarwyd ar 19 Mawrth 2024 (sylwch y bydd hwn yn cael ei ddiweddaru eto ar ôl cyhoeddi'r nodyn hwn); a
- gwefan Y Grŵp Cyswllt Darlledwyr.

Mae Ofcom yn rheoleiddiwr ar ôl darlledu ac ni all helpu darlledwyr gyda'u penderfyniadau am gydymffurfio. Fodd bynnag, os byddai darlledwr yn croesawu help Ofcom i ddeall gofynion y Cod ar raglenni etholiadol a sut rydym yn eu defnyddio, dylent gysylltu â'r tîm Safonau yn: ofcomstandardsteam@ofcom.org.uk